CYPE(6)-05-21 - Papur iw nodi 13

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Dyddiad | Date 7 October

Pwnc | Subject: Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Annwyl Elin,

Diolch i chi am eich llythyr ar 5 Hydref, a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ein cyfarfod ar 7 Hydref.

Rydym yn fodlon ar yr amserlen a gynigiwyd. Fodd bynnag, er mwyn ein galluogi i fodloni'r terfynau amser ar gyfer craffu ar y Bil a chraffu ar y gyllideb, hoffem ofyn am ddau gyfarfod ychwanegol:

- Dydd Iau 9 Rhagfyr (craffu ar y Bil);
- Dydd Iau 20 Ionawr (craffu ar y gyllideb. Rydym yn rhagweld y bydd angen i ni graffu ar y Bil yn y cyfarfod sydd wedi ei drefnu ar gyfer 13 Ionawr.)

Nid oes gennym unrhyw wrthdaro yn yr amserlen ag ymrwymiadau Aelodau mewn perthynas â phwyllgorau eraill.

Rydym yn nodi y gallai fod gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ddiddordeb yn y Bil, a byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor hwnnw i ofyn am ei farn ar sut yr hoffai gyfrannu at y gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd